Ydych chi'n cael trafferthion w rth ddarllen y cylchlythyr hw n? Edrychw ch arno yn eich porw r.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 243 (Cymru) – 28 Mehefin 2019

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i gynigion i ddiwygio'r canfasiad blynyddol

Heddiw, ddydd Gwener 28 Mehefin, rydym wedi cyhoeddi ein hymateb i fersiwn drafft Llywodraeth y DU o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) 2019.

Rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer diwygio proses y canfasiad blynyddol ac yn eu gweld fel cam cyntaf pwysig yn y gwaith o foderneiddio'r system gofrestru etholiadol.

Pan gânt eu rhoi ar waith, bydd y newidiadau yn sicrhau proses fwy effeithlon ac yn galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddefnyddio eu hadnoddau cynyddol gyfyngedig i ganfod etholwyr cymwys y dylid eu hychwanegu at y gofrestr ac etholwyr y mae angen eu dileu o'r gofrestr.

Rhoi'r diwygiadau arfaethedig i'r canfasiad ar waith
Mae'r newidiadau arfaethedig yn dibynnu'n helaeth ar systemau paru data newydd. Os cânt eu rhoi ar waith mewn da bryd ar gyfer dechrau'r canfasiad nesaf yn ystod haf 2020, bydd yn hanfodol sicrhau bod yr elfennau digidol o'r diwygiadau yn cael eu datblygu a'u profi mewn ffordd gydgysylltiedig ac amserol.

Er mwyn sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cael o leiaf chwe mis i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y newidiadau ac i feithrin y sgiliau a'r gallu i'w cyflawni, dylid cyflwyno'r ddeddfwriaeth a fydd yn galluogi canfasiad blynyddol diwygiedig i'r Senedd er mwyn gallu ei chymeradwyo a'i rhoi ar waith erbyn Rhagfyr 2019 fan bellaf.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno eu rheoliadau eu hunain er mwyn rhoi'r diwygiadau hyn ar waith ar gyfer eu cofrestrau llywodraeth leol perthnasol. Mae'n bwysig bod y rheoliadau mor gyson â phosibl ledled Prydain Fawr, er mwyn lleihau'r risg o ddrysu Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac etholwyr.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i gynigion i ddiwygio'r canfasiad blynyddol

Gwybodaeth am ymateb y Comisiwn a gyhoeddwyd heddiw (dydd Gwener 28 Mehefin) a dolen i'r ymateb.

Swyddi gwag yn y Comisiwn Etholiadol

Gwybodaeth am ddwy swydd wag a sut i wneud cais.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. ac maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddu Etholiadol*.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn

Mae'n hollbwysig ar gyfer amserlen canfasiad haf 2020 hefyd, i sicrhau bod y ddeddfwriaeth wedi cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban a'i bod wedi cael ei rhoi ar waith erbyn Rhagfyr 2019 fan bellaf.

Diwygio a Moderneiddio Parhaus

Mae diwygiadau pellach a ddylai fod yn rhan o'r gwaith o foderneiddio'r broses gofrestru etholiadol ac a fyddai'n hwyluso'r broses ar gyfer dinasyddion a Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Er enghraifft, gellid integreiddio'r broses yn ehangach i drafodion gwasanaethau cyhoeddus eraill a galluogi dinasyddion i gofrestru ar yr un pryd ag y byddant yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Gellid defnyddio data'n well hefyd er mwyn casglu a chynnal cofrestrau etholiadol, fel sy'n digwydd mewn gwledydd eraill. Gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol, er enghraifft, ddefnyddio data cadarn gan sefydliadau cyhoeddus eraill drwy gydol y flwyddyn er mwyn nodi pobl sy'n gymwys i gofrestru ond nad ydynt wedi gwneud hynny. Byddai'r diwygiadau hyn yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod y cofrestrau yn fwy cywir a chyflawn.

Rydym wedi cynnal astudiaethau dichonoldeb i ddangos sut y gellid rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn y DU a byddwn yn eu cyhoeddi yn ystod yr haf.

Swyddi gwag yn y Comisiwn Etholiadol

Rydym wrthi'n recriwtio ar gyfer y swyddi canlynol ar hyn o bryd:

- Uwch Gynghorydd - Canllawiau Etholiadol
- Swyddog Cyswllt Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Lloegr

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 21 Gorffennaf 2019.

Mae lleoliad y swydd Uwch Gynghorydd yn hyblyg: gallai ymgeiswyr weithio gartref, neu mewn un o'n swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd neu Gaeredin. Er mwyn cael trafodaeth anffurfiol am swydd Uwch Gynghorydd, ffoniwch Mark Pascoe, Rheolwr Canllawiau, ar 020 7271 0690.

Bydd y Swyddog Cyswllt Rhanbarthol yn gweithio o gartref a bydd angen iddo deithio'n aml ledled Canolbarth Lloegr ac i rannau eraill o'r DU. Cysylltwch â Chris Hinde, Rheolwr Rhanbarthol (Canolbarth Lloegr) ar 020 7271 0560 er mwyn cael trafodaeth anffurfiol am y swydd hon.

Os hoffech ragor o fanylion, neu os hoffech wneud cais, ewch i dudalen recriwtio ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019